



Byron Ashton

Niwl dros y cwm, Bedlinog

Cofio Gareth



Torrwyd ar firi trothwy'r Nadolig pan ddaeth y newyddion trist am farwolaeth y cyfaill hoffus, Gareth Wyn Williams.

Roedd y teulu newydd symud o Nelson, lle bu eu cartref am agos i hanner can mlynedd. Bellach roeddent wedi ymgartrefu yn Dafen, Llanelli. Symud yno wnaethant i fod yn agosach at eu merch, Lowri, sydd yn byw yn y Fforest, Pontarddulais. Rhwng symud o'r naill gartref i'r llall buont yn byw am ychydig yn eu carafán hyfryd yn Gwbert.


Yn enedigol o'r Rhyl, cawsom gip ar ei fywyd yn laslanc yn ei nofel "Gwenoliaid".

O Ysgol Glan Clwyd aeth i astudio am radd yn y Gymraeg yng Ngholeg Prifysgol Cymru, Llanbedr Pont Steffan. Wedi cymhwyso'n athro daeth atom i dde-ddwyrain Cymru ac, wedi bod mewn ysgol yng Nghaerdydd am gyfnod, sefydlodd ei hun, ganol y 70au yn athro Cymraeg yn ysgol Babyddol Cardinal Newman yn Rhydfelen, Pontypridd. O'r fan honno fe'i penodwyd yn ymgynghorydd addysg yn ESIS, cwmni Ymgynghori Addysgol y Pedair Sir. Yna aeth ymlaen i ysgrifennu a chyhoeddi nifer o werslyfrau iaith i ESIS a CBAC, yr awdurdod arholi cenedlaethol. Bydd llawer yn cofio'r rhan flaenllaw a chwaraeodd yn y gwersi cwrs carlam Wlpan ar gyfer oedolion oedd yn dysgu Cymraeg.

Bu'n aelod o'n cwmni drama leol, Cwmni Cwm Ni. Yn 1996 perfformiwyd ei Ddrama Nadolig, a ysgrifennwyd yn wreiddiol ar gyfer ei ddisgyblion yn ysgol Newman. Ychydig flynyddoedd wedi hynny perfformiodd ein cwmni "Tennis Bwrdd", comedi â gweinydd o Cosofa yn un o'r prif gymeriadau. Bydd ein darllenwyr yn siŵr o'i gofio yn serennu fel morwr Almaenaid a oedd wedi dysgu Cymraeg, pan enillodd y cwmni'r wobr gyntaf yn y Genedlaethol ym Meifod gyda'r ddrama, "Pwy yw fy Nghymydog?"

Bu ef a Pat yn aelodau gweithgar o'r Blaid Genedlaethol. Yn ei oriau hamdden roedd yn hoff o bysgota ac roedd ganddo gwch bach a gadwai yn agos i'w garafán yn Gwbert. Hoffai wyllo rygbi a phêl-droed, ac yn enwedig dilyn rhai o'n clybiau lleol. Roedd hefyd yn aelod o bwyllgor y papur hwn a chyfrannodd nifer o erthyglau difyr gan gynnwys rhai o'r straeon byrion a gyhoeddwyd ganddo.

Ond er ei holl waith wrth addysgu'r Gymraeg, yn ddiweddarach yn ei yrfa darganfu dalent i ysgrifennu. Datblygodd ei dalent o ysgrifennu dramâu i ysgrifennu llyfrau. Ei gyfrol gyntaf oedd "Gwenyn", yna lansiodd lyfr i blant, "Y Ffatri Dywydd", yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, Islwyn, 1997. Wedi hynny mentrodd ar ysgrifennu cyfres o dair nofel yn seiliedig ar gymeriad y ditectif




Arthur Goss. Rhain oedd, "Y Teyrn", "Y Llinach", "Yr Eryr".

Ei gyfrol ddiweddaraf oedd "A:Annisgwyl" sef casgliad o straeon byrion y bu'n eu trafod gydag aelodau Cylch Darllen Cwmni. Ond deallwn nad hon a fwriadwyd i fod yn greadigaeth olaf ganddo chwaith gan ei fod ar ganol ysgrifennu nofel dditectif arall.

Cynhaliwyd yr angladd yn Amlogfa Sirhywi, Pontllanfraith, brynhawn Llun, 17^{eg} o Ionawr.

Geidw ei weddw, Pat, eu plant Nia, Cai a Lowri a'u teuluoedd hwythau. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf iddynt.



Buddugwr Eisteddfodol



Hyfryd oedd dilyn canlyniadau Eisteddfod Gadeiriol Caerdydd 2022 eleni ar UTube, yn enwedig o weld bod brodor o'n sir ni wedi cipio un o'r prif wobrau.

Gruffudd Gwynn gipiodd Gadair Tlws yr Ifanc yn Eisteddfod Gadeiriol Caerdydd a hynny dan y ffug enw "Gruff". Bydd nifer o'n darllenwyr yn cofio Gruff yn ddisgybl yn Ysgol Gymraeg Caerffili ac yna yn Ysgol Gyfun Cwm Rhymni. Bellach mae'n bedair ar hugain mlwydd oed ac yn gweithio fel cyfieithydd i Gyfoeth Naturiol Cymru. Wedi gadael yr ysgol aeth ymlaen i astudio Saesneg a Ffilm gyda blwyddyn yn astudio'r Gymraeg yng Ngholeg Prifysgol Cymru, Aberystwyth. Yn ogystal â barddoni mae e'n canu'r gitâr a chadw'n heini drwy redeg.

Y gamp yn Eisteddfod Gadeiriol Caerdydd oedd ysgrifennu cerdd, caeth neu rydd, neu ddarn o ryddiaith ar y testun "Paradwys". Y wobr oedd Tlws yr Ifanc gyda siec o £50 Y beirniaid oedd Aneirin Karadog, Eurig

Salesbury, Geraint Lewis a Manon Steffan Ros.

Y Parchedig Ddoctor R. Alun Evans fu'n arwain Seremoni'r Cadeirio a oedd, yn ei eiriau ef, yn "seremoni wahanol"! Yn wahanol drwy gael ei chynnal o flaen cynulleidfya denau oedd wedi'u gwasgaru'n briodol oherwydd gofynion y Covid. Yn wahanol, hefyd, am fod y bardd buddugol wedi gorfod codi'r tlws ei hunan yn hytrach na fod hwnnw'n cael ei gyflwyno iddo!

Ysgrifennodd Gruffudd y gerdd yn dwyn y teitl "Paradwys" ar ôl ymweld ag oriel yr arlunydd Alun Davies ym Mhorthgain, Sir Benfro. Fel y dywed am Alun,

Mae'n offrymu, mewn fframiau,
Liwiau byw ei annwyl bau.
A rhoi ar lwyfan, drwy lifyn,
Helaethder o geinder gwyn

Un o nodweddion lleol arall y Seremoni oedd bod Aneirin Karadog yn un o'r beirniaid. Mae'n hysbys i'n darllenwyr, wrth gwrs, fod teulu'r beirniad yn hanu o Nelson. Mae Aneirin, ar ôl cyfnod o fyw yn Llydaw, bellach yn byw, gyda'i deulu ym Mhontyberem, Sir Gâr.

Roedd Aneirin ac Eurig Salesbury wrth gyflwyno'r feirniadaeth ar ran eu cyd feirniaid, yn canmol safon y cystadlu. Teimlai'r beirniaid fod y gwaith ychydig yn hir ar gyfer mesur fel cywydd, neu yn gyfresi o gwpledi odledig. Ond nad oedd y bardd "wedi colli stêm ond cadw i fynd." Roedd y ddau feirniad yn canmol y ffaith fod delweddu Gruff yn berthnasol a diymdrech drwy gydol y gerdd. Yn y pennill olaf mae'n gresynu diflaniad y gymuned Gymraeg ym Mhorthgain

Alun yw'r brodor olaf
Ymhlith mintai o dai haf.
Erydu mae'i baradwys -
Y caeau a'r glannau glwys.

Mae Gruffudd yn awyddus rhannu'r clod am ei fuddugoliaeth drwy nodi dylanwad ei daid, T. Gwynn Jones, ei dad, Rhys Gwynn, ei gefnder Steffan Gwynn sydd hefyd yn barddoni a Gwen ei chwaer a'i fam Sarah.

Ein llongyfarchiadau mwyaf gwresog felly i Gruffudd Gwynn o Fachen ar ei gamp nodedig. Bu ei gyn athrawon yn Ysgol Gymraeg Caerffili yn frwd eu llongyfarchiadau ar *What's App*. Yn sicr, mae ei addewid yn ein sicrhau y cawn glywed amdano lawer gwaith eto. Gobeithiwn gyhoeddi ei gerdd 'Paradwys' yn rhifyn mis Mawrth.

Cofio John



Ganed John ar y 3^{ydd} o Orffennaf 1950 yn Aberystwyth. Roedd yn unig blentyn i Elizabeth a Thomas Davies ac yn nai i Iwan a Beryl Davies, Blaenporth. Bu ei dad farw pan oedd John ond yn 16 oed. Ail briododd ei fam â Gareth Thomas a chafodd John lys chwaer, Janet. Doedd ganddo ddim llawer o hanesion am ei ddyddiau cynnar ond roedd yn hoff o sôn am gi'r teulu a eisteddai yn ei bram i'w warchod rhag dieithriaid.

Hoffai fynd i weld ei rieni-cu oedd yn rhedeg cartref hen bobl yn Llanbed. Cofiai, â hoffter, chwarae â hen dŷ doliau Fictorianaid tra roedd aelod o'r staff o'r Almaen yn gofalu amdano. Yr adeg honno mae'n debyg fod gan John fwy o eiriau Almaeneg nag o Saesneg!

Arferai John fynd i dŷ cymdogion pob dydd wedi'r ysgol. Nhw oedd yr unig deulu yn y stryd oedd â theledu. Un prynhawn, trodd y cymydog y teledu bant a dweud, "John, gwell i ti fynd adre, mae gan dy fam sypreis i ti." Gyda hynny yn ei feddwl rheddodd John nerth ei draed a chael ei wobrwyo â golygfa fendigedig. Roedd ganddyn nhw nawr eu teledu eu hunain!

Treuliodd fore oes yn Ysgol Gynradd Gymraeg Aberystwyth a mynd ymlaen i Ysgol Uwchradd Ardwyn. Ei swydd gyntaf wedi gadael yr ysgol oedd yn ariannwr ifanc yn Llanbed lle cyfarfu â Rose. Wedyn fe briodon nhw ac ymgartrefu yn Nhreforys. Yn ystod ei ymrwymiad llwyr i fancio symudodd lawer gwaith gan wneud ffrindiau oes o'i gyd weithwyr.

Gweithiodd John hefyd yng Nghastell Nedd ac Abertawe cyn symud i Aberteifi lle ganed Catrin a Dafydd. Bum mlynedd yn ddiweddarach fe'i symudwyd i Gaerffili a daeth yn rheolwr cangen Ystrad Mynach. Yn 2000/2001 gadawodd y canghennau gan ymuno ag *elite* oedd yn gweithio yn y dirgel ar draws canghennau yn Lloegr a Chymru. Cafodd ymddeoliad cynnar yn 2004 a doedd dim edrych yn ôl wedi hynny.

Dywedwyd ei fod yn nodweddiadol o bobol Gorllewin Cymru: pocedi hir, dwfn, dwfn a chalon o aur! Roedd yn gefnogwr rygbi brwd gan fynd i wylïo rygbi pob dydd Sadwrn yn yr 80au a'r 90au gan gefnogi Gleision Caerdydd, Caerffili, Casnewydd a Bedwas. Teithiodd mor bell â'r Alban, Yr Iwerddon a Ffrainc i gemau rhyngwladol, ond ni fu i'r Eidal erioed.

Bu Dafydd a Karen yn gefn mawr i Rose, yn enwedig yn ystod y misoedd diwethaf. Mae Catrin, ar hyn o bryd yn America lle bu'n byw ers 2007 ac yn briod ag Anthony. Torrodd ei chalon am nad oedd yn gallu dychwelyd i angladd ei thad oherwydd cyfyngiadau Covid, ond mae yn ymfalchïo yn y cyfle o fod yn ei gwmni am bythefnos ar ddiwedd Tachwedd. Mae hi'n uwch nyrs ymchwil yn Ysbyty Duke, Durham, lle mae'n delio â Threialon Clinigol gan weithio â chleifion sydd â chancr y brostad. Mae ond yn rhy ymwybodol o bwysigrwydd profion ar gyfer y salwch ofnadwy hwn. Bendithiwyd John ag wyrion, Jonwyn ac Anwen ac roedd yn mwynhau mynd i Ogledd Carolina lle gallodd ymlacio a chwarae gyda'r wyrion.

Fel gŵyr pawb erbyn hyn, mi gollodd John ei frwydr yn erbyn y cancr ar nos Sul, 2ail o Ionawr, 2022. Does gennym ond estyn ein cydymdeimlad mwyaf dwys â Rose, Catrin, Anthony a'r plant, a hefyd Dafydd a Karen yn eu colled.

Dymuna Rose a'i theulu ddiolch yn fawr iawn i bawb am y cardiau, y blodau a'r geiriau caredig a anfonwyd atynt yn eu galar, ac yn enwedig am yr arian a godwyd er cof am John. Cyfrannwyd £900 i gyd, ac mi gaiff hwn ei rannu rhwng Canolfan Cancr Felindre a Gofal Hosbis Dewi Sant / St. David's Hospice Centre.

Carwn ddiolch o galon i Rose am ddarparu'r holl wybodaeth hyn ar adeg mor anodd.

Annwyl Olygydd.....

Fel un o ddarllenwyr selog Cwmni, rwyf wedi sylwi ar y cyfeiriadau at dyfu *kale* yn y golofn arddio. Planhigyn gwerthfawr mae’n amlwg ac fe ysgogodd y darllen awydd i ymateb. Gobeithio na fydd awdur y golofn yn digio!

Annwyl Ben, ychydig eiriau
Am eich hyfryd bapur bro,
Llawer o erthyglau difyr
I’w mwynhau dro ar ôl tro.

Ond roedd rhifyn Rhagfyr d’wetha
Yn fy mhoeni dipyn bach,
Yr hen golofn arddio honno
A’i chyngor sut i fwyta’n iach.

Y mae’r garddwr lunia’r golofn
Yn tyfu cêl, planhigyn cry’
A phlanhigyn HYNOD hyblyg,
Yn yr ardd tu cefn i’r tŷ.

Os mai C yw llythyren gyntaf
Unrhyw fwyd o fewn y byd,
Gall y cêl fod yn gynhwysyn:
Cyri, cawl neu’ch dewis bryd.

Ond mae nifer fawr o fwydydd
Sydd ag C yn llythyren flaen,
Beth am gacen, cwstard, crempog,
A ellir doddi cêl yn rhain?

Os yw’r cêl wir mor ddefnyddiol
Ac yn goroesi ym mhob hin,
Ga i wneud awgrym i chi arddwyr
Am eich gardd a sut i’w thrin?

Beth am wrthod llysiau eraill
A glynu at y cêl di-gwrdd
Does angen tyfu dim byd arall,
Hwn rydd faeth a gwledd i’ch bwrdd.

(Cedwir cyfeiriad y gohebydd hwn/hon gan y Golygydd)



Annwyl Olygydd,
Rwy’n ysgrifennu i gydymdeimlo â cholofnydd “Sut Mae’r Ardd yn Edrych”. Mae’r llyn llaeth a’r mynydd menyfyn wedi cael eu goddiweddyd gan Y Goedwig Gêl. Rwy am lansio “Cennad Cêl” i ddatrys problem y gordyfiant yma. Wrth glywed amdano trois i’n syth bin at Mrs Beeton sydd â’r ateb i bopeth o fewn dros fil a hanner o dudalennau. Methodd Delia Smith gyfeirio ato unwaith mewn ychydig dros saith cant tudalen.

Dyma ni ’te, wedi’u cuddio yng nghanol y llyfr mae ryseitiau o wahanol rannau o Brydain. Mae Cymru yn cynnwys bara brith a chawl cennin (sypreis, sypreis!); Lloegr â Brown Windsor Soup, Flumenty a Moggy (beth bynnag yw’r rheiny). Yn yr Iwerddon a’r Alban cefais i lwc. Yn yr Iwerddon mae eisiau Cêl, tatws, llaeth, cennin, mace a menyfyn i wneud rhyw fath o stwnsh gwyrdd o’r enw Colcannon. Dyw e ddim yn apelio, wy’n bownd o gyfaddef ond efallai fod darllenwr ag awr fach sbâr yn fodlon arbrofi. Yr Alban yw’r enillydd, beth bynnag - a dyma fe.

Kail Bros (ar gyfer 6-8)

- Hanner pen ychen neu 2 sawdl buwch
- 2 litr o ddŵr
- 2 lwy 5ml o halen
- 2 genhinen
- 50 g. pearl barley neu flawd ceirch
- 1kg cêl
- Pupur a halen

Crafwch a glanhewch y cig, a dodwch y cyfan yn y dŵr a'r halen mewn sosban fawr.
Golchwch y cennin a thorrwch i ddarnau 2cm ac ychwanegwch at y pan.
Berwch, yn araf, am 4 awr gan ychwanegu'r pearl barley am y 2 awr olaf.
Torrwch y cêl yn fân ac ychwanegwch ef i'r pan am yr 20 munud olaf.
Codwch y cig a thorrwch i giwbiau o 1cm.

O.N. Mae Mrs Beeton yn dweud, os oes prinder ych mae modd defnyddio bîff yn ei le.

Pob lwc yn y gegin. Oes unrhyw syniadau eraill gyda'n cyd-ddarllenwyr? Rwy'n siŵr bydd y colofnydd yn falch o glywed amdany'n nhw.

Yr eiddoch,

Kayley (Caerffili)

[\(Cedwir cyfeiriad y gohebydd hwn/hon gan y Golygydd\)](#)

Y Gwanwyn ar Gerdded

Shwt ma'r ardd yn edrych?

Er ein bod yng nghanol misoedd y gaeaf, a'r barrug yn y bore yn ein hatgoffa o hynny, eto i gyd mae arwyddion y gwanwyn i'w canfod o'n cwmpas. Un o'r arwyddion cyntaf i mi yw gweld y cennin pedr yn dechrau codi eu pennau, ac mae rhai o'r cyntaf i wneud hynny mewn lle cyn eitha annisgwyl. Pwy blannodd y rhai sydd ar y cylchdro ger Llanbradach? Oes unrhywun yn gwybod? Mae haid ohonyn nhw ar yr ochr o'r cylchdro sy'n wynebu'r de, ac felly yn derbyn pob munud o unrhyw heulwen sy'n digwydd llonni misoedd tywyll y gaeaf.

Gwelais i nhw yn eu blodau ym mis Rhagfyr rai blynyddoedd yn ôl! Dwi heb weld unrhywbeth tebyg ers hynny, ond maen nhw ar y blaen bob tro. Mae'r rhai sydd wedi eu plannu ar yr ochr ogleddol yn blodeuo'n hwyrach, ond mae'r gwanwyn yn cyrraedd un rhan o'r cylchdro hwnnw yn gynnar iawn bob blwyddyn.



Roeddwn i wedi gobeithio cael llun o'r eirlysiau yn fy ngardd i gydfynd gyda'r darn hwn, ond nid oes dim sôn am eu blodau eto. Dim ond y cleddyfau bach gwyrdd sydd i'w gweld hyd yn hyn, gwaetha'r modd. Ond wrth i fi chwilio amdanynt, sylweddolais fod blagur uwch fy mhen! Mae'r eirlysiau wedi eu plannu wrth draed dwy goeden *camellia* sydd gen i, ac mae'r coed hynny yn paratoi nawr i flodeuo ym mis Chwefror. Fel y gwelwch, er bod y barrug yn drwm arnynt, mae'r blagur yn llenwi, yn paratoi i ffrwydro mewn sioe o flodau pinc llachar – byrhoedlog, gwaetha'r modd. Felly, er bod dim blodau gen i i ddangos i chi, mae'r blagur dan y barrug yn arwydd bod y gwanwyn yn y tir!

Ac rwy'n siŵr y byddwch yn falch o wybod bod y cêl gyda fi o hyd. Er gwaethaf yr holl brydiau bwyd, er gwaethaf rhoi i mi yw bod fy optegydd yn dweud taw dyma'r llysieuyn gorau i'w fwyta er lles eich llygaid. Felly fe ddylwn i fod yn falch ohono, a gofalu ei fwyta'n amlach fyth...

Blwyddyn Newydd Dda i chi i gyd! (Tipyn bach yn hwyr ond dyma rifyn cyntaf 2022) .Wel, mae'r gaeaf wedi bod yn hir ac yn ddiflas, felly mae'n amser cael tipyn bach o hiwmor. A beth sy'n well ar gyfer hiwmor na limrig da. Ydych chi'n hoffi limrigau? Ydych chi'n ysgrifennu limrigau weithiau? Dyma sialens i chi : ar ôl darllen y limrigau ar y dudalen yma, beth am ysgrifennu un yn dechrau,

Mae papur bro yma Nghaerffili.....

Danfonwch eich limrig at y Golygydd ac efallai y cawn ni gystadleuaeth!

Roedd bachgen yn byw'n y Bahamas
Yn meddwl am ddim byd ond dramas,
Roedd yn actio'n y gwely
Gan grynu fel jeli,
A rhwygo sawl twll'n ei bajamas.

Roedd dyn bach yn byw yn Hong Kong
Oedd yn hoff iawn o chwarae ping-pong,
Doedd ganddo ddim bat
Na phêl *come to that*,
Dweud y gwir roedd yn chwarae fe'n *wrong*.

Mewn noson gwisg ffansi'n y colej
Aeth Twm wedi'i wisgo fel sosej,
Rôl andros o sbri
Aeth adre tua tri,
A bwytodd rhyw gi e'n y pasej.

Weithiau mae defnyddio Saesneg mewn cerdd Gymraeg yn ddoniol, neu sillafu (spell) geiriau Saesneg fel Cymraeg (colej, sosej, pasej). sialens : a challenge cystadleuaeth : competition andros o sbri : a great deal of fun

Llongyfarchiadau

Bydd pob un o'n darllenwyr wedi dwlu clywed fod Llywodraeth Cymru wedi penderfynu gwneud yn siŵr fod pob ysgol yng Nghymru yn derbyn copi o lyfr hanes rhagorol Dr Elin Jones am hanes Cymru, 'Hanes yn y Tir'.

Bu Elin yn brwydro'n ddiflino am flynyddoedd yn ceisio arweiniad i ysgolion gyflwyno hanes eu gwlad eu hunain i blant y genedl.

Cafwyd rhifyn diddorol o "Heno" nos lau, 20fed o Ionawr, am Ddoctor Elin lle dywedwyd fod 10,000 copi o'r llyfr wedi'i werthu!!!

Diolch yn fawr, Elin

Eisteddfod Cynganeddu Menter Caerffili

Dros y flwyddyn ddiwethaf bu criw yn cael gwersi cynganeddu dros Zoom gan y bardd Ceri Wyn Jones. Cyn y Nadolig gwnaeth y dosbarth gystadlu mewn eisteddfod fach gyda'r darnau wedi'u gosod gan Ceri. Roedd pump cystadleuaeth i gyd, a disgwyl i bawb rhoi i fewn o leiaf un darn ar gyfer pob cystadleuaeth! Dyma'r darnau buddugol isod, llongyfarchiadau i bawb wnaeth ddod i'r brig!

Brawddeg o'r gair 'C-A-R-E-D-I-G'

Cefais antur rywbryd echnos draw islaw Glynebwy.

gan Gwyneth

Limrig yn cynnwys y llinell 'Mis es i am drip i Gaerffili'

Fe es i am drip i Gaerffili.
Bu Covid yn rhemp yno 'leni -
Roedd y castell dan glo
A phob siop yn y fro.
Doedd dim caws yno 'chwaith i'm bodloni.
Sharon

Triban beddargraff adeiladwr neu adeiladwraig

Mewn gwynt, roedd llechi'n llacio,
Mewn glaw, 'roedd dŵr yn llifo.
Simneiau simsan, sgrïws mewn llwch -
Mae'i flwch yn ddarnau Lego.
Sharon

Cwpled caeth yn cynnwys y gair 'aur'

Herod
Rhodd a daniodd falais dall
yw'r aur a'r trysor arall.
Carole

Englyn ar thema'r Nadolig

Er alaw y carolau, llawenydd
sy'n llenwi'n calonnau,
Ein boddhad yw brad y brau;
Wylant, a'r byd ar wyliau.
Shelagh



Lluniau Ein Darllenwyr

Diolch i Byron Ashton am ei lun a welir ar clawr

*

Llun arall neilltuol yw hwn ar y chwith gan Mair Roberts. Y pennawd hyfryd yw,

"Yn amlwg â dim diddordeb yn yr hwyaid.
Dywedodd "Ffarwel!" chwythodd gusan gan
gerdded yn y cyfeiriad arall."

Gawn ni felly wahodd mwy o'n darllenwyr i yrru
lluniau i mewn i ni gael eu cyhoeddi yn y
dyfodol?



Noson gyda'r Delyn

Merched y Wawr Cwm Rhymni

Yn ein cyfarfod diweddara' o Ferched y Wawr, cawsom ein tywys yn ôl mewn amser, ar daith Nadoligaidd o Llanofar yng nghefn gwlad hardd Sir Fynwy i gadarnleoedd canolbarth Cymru, gan Rhiaian Bebb. Wrth gwrs, nid oedd angen i ni adael ein hystafelloedd ffrynt gan ein bod yn gallu croesawu Rhiaian i'n cartrefi drwy dechnoleg y we.

Dysgodd Rhiaian blant oed cynradd yn Ysgol Heol y Celyn, Pontypridd, am 18 mlynedd, cyn dychwelyd i'w gwreiddiau brodorol yng nghanolbarth Cymru lle bu'n dysgu Cymraeg i oedolion. Sefydlodd Rhiaian y Siop Siarad yng Nghanolfan Owain Glyndŵr, Machynlleth. Mae gan Rhiaian ddiddordeb mawr mewn cerddoriaeth werin Gymreig, yn enwedig y delyn deires, ac roedd yn un o sylfaenwyr Cymdeithas y Delyn Deires yn 2019. Mae hi'n aelod o Cwmni Dawns Caerdydd ac yn Llywydd Cwmni Dawns Werin Cymru.

Dechreuodd Rhiaian y noson drwy gyflwyno traddodiadau Nadolig yn dyddio o tua 1837 ar ystad un o'i harwresau, Augusta Hall, Arglwyddes Llanofar. Roedd Arglwyddes Llanofar yn frwd dros yr iaith a'r traddodiadau Cymraeg, y delyn deires a gwisgoedd Cymreig. Clywsom fod mis Rhagfyr yn gyfnod o ddathlu ar ystad Llanofar, gan ddechrau gyda dathliad pen-blwydd priodas Augusta a'i gŵr Benjamin Hall ar y 4ydd o'r mis. Byddai'r dathliadau yn parhau gydag ymweliad gan y Fari Lwyd wythnos cyn y Nadolig cyn dathliad mawr ar Ddydd Nadolig a oedd yn cynnwys teulu Augusta a holl denantiaid a gweithwyr ystad Llanofar.

Y traddodiad oedd mynychu gwasanaeth y Plygain yn Eglwys y Plwyf yn ystod oriau mân bore Nadolig ac yna pryd enfawr o fwyd, cyn iddynt fwynhau adloniant gan delynor yr ystad ynghyd â'r tenantiaid a'r gweision mwya talentog.

Yna dosbarthid gwobrau i denantiaid am eu hymdrechion mewn gwahanol gystadlaethau. Un o'r cystadleuthau oedd am y praid gorau o ddefaid Cymreig, un arall oedd am yr ardd orau, ac un arall oedd am y bwthyn a'r twlc moch a wyngalchwyd orau.

Wedi hynny cynhelid parti i'r plant cyn dawnsio a chanu i gyfeiliant y delyn.

Yna, darllenodd Rhiaian gyfieithiad o gyfrif a ysgrifennwyd gan James Kenwood yn dyddio o 1850 o wasanaeth y Plygain yn Eglwys Llanymawddwy. Clywsom sut oedd cynulleidfau'r Plygain yn llenwi'r eglwys wedi gwisgo mewn gwisgoedd brethyn traddodiadol, gyda chanhwyllau'n darparu golau a gwres.

Rhestrodd Rhiaian reolau niferus oedd, ac sy'n dal i fod, yn gysylltiedig â'r gwasanaeth Plygain, gan gynnwys bod dim trefn na raglen wedi'u paratoi ymlaen llaw a bod carolau i'w canu'n ddi-gyfeiliant gyda dim ond tiwnfforch i'w helpu i daro'r traw. Soniodd bod dwy hanner i'r gwasanaeth a bod perfformwyr yn perfformio yn yr un drefn yn y ddwy ran. Byddai'r gwasanaeth yn dod i ben gyda'r dynion yn canu Carol y Swper cyn gweini lluniaeth.

Bu Rhiaian yn gwehyddu cerddoriaeth yn fedrus yn ei chyflwyniad drwy chwarae hen ddarnau Llanofar gan John Parry a charolau traddodiadol y Plygain ar ei thelyn deires, offeryn traddodiadol Cymru. Roedd hi'n noson addas i ddechrau ein dathliadau Nadoligaidd ac roedd pawb yn ddiolchgar i Rhiaian am ein harwain yn ôl i'r amseroedd a fu.



Dosbarth Wyn

Croeso i chi ymuno â ni yn ein cyfarfod nesaf

Chwefror 2ail

Rhyddiaith gan gynnwys y Stori Fer

Am fwy o wybodaeth ac i dderbyn y ddolen Zoom, anfonwch at Wyn (JamesEW@caerdydd.ac.uk)

CLWB CINIO GWYL DDEWI

£3 y pen - per head

Dydd Mawrth - Tuesday

Mawrth 1af - March 1st

12:30

@Canolfan Weledigaeth Trecelyn
Newbridge Vision Centre NP11 4AG

Dewch i ddathlu Gŵyl Ddewi gyda ni dros ginio
o gawl gyda bara a phwdin bara brith, yn
defnyddio cynnyrch lleol wedi ei pharatoi gan
Eluned Scott. Opsiwn llysieuol ar gael.

*Join us to celebrate Gwyl Ddewi with a lunch of cawl
with crusty bread and a bara brith puding, all local
produce prepared by Eluned Scott. Vegetarian option
available*

Rhaid archebu o flaen llaw - You must book before
Chwefror 21 February.

Llefydd cyfyngedig archebwch yn fuan - Limited spaces book now

bethanjones@mentercaerffili.cymru

01443 820913

Croeso i Natasha Jones, arweinydd newydd Cylch Meithrin Tonyfelin, Caerffili. Daw Natasha atom o Gwmbach, Aberdâr, ac mae'n byrlymu â syniadau newydd gwefreiddiol. Daw hefyd gyda'r cymwysterau a'r profiad i wireddu ei gweledigaeth.



Dysgu ei Chymraeg yn Ysgol Gyfun Aberpennar wnaeth Natasha a mynychodd ei phartner, sydd yn y fyddin, Ysgol Rhyd y Waun. Felly, ar aelwyd lle mae'r Gymraeg yn mynnu ei lle y maent yn magu eu merch saith mlwydd oed a'u mab sy'n dair.

Mae Natasha yn hen gyfarwydd ag ardal "Cwmni" gan mai yng Ngholeg Ystrad Mynach derbyniodd ei hyfforddiant gofalu am blant. A theulu awyr agored sydd ganddynt yn Aberdâr. Mae hi'n hoff iawn o arddio ac o fynd â'i phlant allan i gerdded, yn enwedig mewn coedwigoedd, gan fod ganddi gymwysterau "Forest School".

Rheolwr y fenter "Flying Start" oedd swydd Natasha cyn cymryd yr awenau yn Nhonyfelin. Mae'n credu'n gryf yn egwyddorion "Playwork" sydd yn cyd-fynd yn hwylus â gofynion y Cyfnod Sylfaen wrth annog plant i ymgymryd â sialensiau a chyflawni targedau. Mae'n angerddol ynglŷn ag addysg a gwêl bosibiliadau sylweddol yn Nhonyfelin. Mae'n ffafrio'r agwedd "cartref i gartref" fel sail i

ysbrydoli meddyliau plant ifanc.

Rhyw 24 o blant sydd yno ar hyn o bryd ar unrhyw un adeg, a'i nod yw manteisio ar sefyllfa a allai ddarparu ar gyfer deugain o blant.

Dymunwn bob llwyddiant a rhwyddineb iddi wrth iddi ymgymryd â'r her ddiweddaraf yn ei gyrfa.

Swyddog Newydd

Manon Jones-Berry yw swyddog newydd Mudiad Meithrin ar gyfer ein hardal ni ac mae wedi bod gyda ni ers mis Medi. Mae Manon yn teithio o Felin Fach, pentref ryw bedair neu bum milltir i'r gogledd o Aberhonddu, i ddod atom. Yn enedigol o Fylchau ger Dinbych, daeth y teulu i fyw ym Mrycheiniog wedi treulio rhai blynyddoedd yn Lloegr ond cyrhaeddodd nhw yma mewn da bryd i'w merched, Glain sy'n 21ain a Sara sy'n 19eg gael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg. Ond teithio fu eu hanes eto, yn gyntaf i Ysgol y Bannau yn nhref Aberhonddu ac yna i Ystalyfera ym Mlaenau Cwm Tawe ar gyfer eu haddysg uwchradd. Y ddwy yn amlwg wedi elwa o'u haddysg gan eu bod wedi mynd ymlaen i astudio yn y brifysgol.

Tra'n byw yn Wiltshire a Berkshire bu Manon yn is-reolwr mewn cartref cymunedol yn gweithio gydag oedolion ag anabledd. Pan ddaeth i Gymru, cafodd swydd yn gynorthwy-ydd dosbarth yn Ysgol y Bannau a bu yno am wyth mlynedd. Mae hi'n dysgu Cwrs Lefel Tri yn Diwtor/Asesydd yn Ysgol Gyfun Gwynllyw.



Mae hynny'n golygu gweithio ym mhedair sir yr hen Went, Mynwy, Torfaen, Casnewydd a Chaerffili.

Gyda'r holl waith a'r holl deithio, prin fod ganddi lawer o amser i hamddena ond mae'n hoff iawn o arddio ac o gerdded ei thri chi.

Bydd ei chymwysterau amrywiol a'i phrofiad sylweddol yn sicr o fudd mawr iddi wrth ymgymryd â'r cyfrifoldeb o ddatblygu addysg feithrin cyfrwng Gymraeg yn ein sir.

Merched y Wawr Ionawr 2022

Taith i'r Dwyrain Pell

Rhaid ein bod ni'n dechrau'r flwyddyn newydd yn llawn egni, oherwydd ar Ionawr 19^{eg} cawsom nid un ond dau gyfarfod ar yr un prynhawn! Cyfarfod Blynyddol Cyffredinol (CBC) oedd y cyntaf, y cyfarfod sy'n rhaid ei gynnal yn flynyddol er mwyn i'r pwyllgor roi adroddiad ar ei waith a'r sefyllfa ariannol i'r aelodau. Mae'n gyfle hefyd i ethol pwyllgor newydd, os yw'r aelodau'n dymuno gwneud hynny ar ôl derbyn yr adroddiadau. Ie, mae CBC mor ddifyr â hynny - ond yn allweddol i barhad pob cymdeithas a sefydliad. Fe all fod yn gyfarfod anodd hefyd, cofiwch. Ond nid felly y bu yn ein CBC ni eleni.

Derbyniwyd yr adroddiadau'n unfrydol, ail-etholwyd y pwyllgor presennol yn unfrydol hefyd, ac ail-etholwyd swyddogion y gangen wedyn – ie, yn unfrydol eto. Yn hyfryd iawn, ac yn groes i'r arfer mewn llawer o CBCau, gwaetha'r modd, roedd y rhan fwyaf o'r aelodau'n bresennol. Mae hynny'n arwydd o gymdeithas iach, ffyniannus, wrth gwrs, ond yn ein hachos ni yng Nghwm Rhymni, roedd hefyd yn arwydd o ddoethineb trefnwyr y rhaglen. Roedd cyflwyniad gan Anwen Hill yn dilyn y CBC, ac oherwydd natur CBC, nid oedd yn bosibl i wybod pryd y byddai Anwen yn dechrau siarad...



Mae Anwen wedi difyrru'r gangen o'r blaen, ac mae ei chyflwyniadau yn llawn gwybodaeth newydd a lluniau pert ac yn wahanol bob amser. Nid yw'n syndod i gynifer ddod at ei gilydd ar y 19^{eg} felly! Er yr hoffai'r Cadeirydd a'r Trysorydd feddwl taw eu hadroddiadau nhw oedd yn denu pobl, rydym yn gwybod pwy oedd y gwir atyniad.



Draw i'r dwyrain pell yr aethom gydag Anwen, i Dde Corea ac i Fietnam - a hynny ar adeg pan mae teithio wedi ei gyfyngu gymaint ers yr adeg hon ddwy flynedd yn ôl. Mae'r enwau'n gyfarwydd iawn, ond ychydig iawn ohonom sydd wedi ymweld â'r gwledydd hyn. Ar eu ffordd adre o Seland Newydd rai blynyddoedd yn ôl oedd Anwen ac Ivan ei gŵr pan achubon nhw ar y cyfle i ymweld â'r ddwy wlad. Ymweliadau byr oedden nhw, wrth raid, ond fe gawson ni flas hyfryd a chofiadwy gan Anwen.

I Seoul aethon nhw gyntaf, er am ddau ddiwrnod yn unig. Cip sydyn felly, ond un oedd yn dangos yn glir y gwrthgyferbyniad trawiadol rhwng temlau hynafol ac addurnedig yn sefyll ynghanol strydoedd. Roedd hi'n oer ofnadwy yn Ne Corea, a gwelso'n ni luniau o eira ymhobman, a llynnoedd wedi eu rhewi'n gorn - ac Anwen yn sefyll i gael tynnu ei llun, hefyd wedi rhewi i'r fan!

Roedd hi ac Ivan yn siŵr o fod wedi croesawu'r cyfle i ddianc i wres Fietnam. Cawson nhw fwy o amser yno, a chyfle felly i weld mwy o'r wlad, ac o'r mannau oedd mor gyfarwydd i ni adeg y rhyfel ofnadwy yno yn y 1960au. Hoian oedd y lle cyntaf ar eu rhestr, ac yno cawson

nhw edrych ar wyneb Ho Chi Minh ei hun, trwy ymweld â'i fawsolëwm. I ddweud y gwir, camgymeriad oedd hynny ar ran eu tywysydd. Chwarae teg iddo, hen iaith ryfedd yw'r Saesneg, ac mae "mausoleum" a "museum" yn debyg ofnadwy i'w gilydd!



Gwelson ni'r un gwrthdaro pensaernïol yn Fietnam o ran y cyfuniad rhyfedd o hen demlau lliwgar a'r adeiladau newydd, llwyd, ond gwelson ni hefyd adeiladau a godwyd yn ystod y cyfnod pan oedd Ffrainc yn llywodraethu'r wlad - adeiladau a fyddai'n gweddu i Baris neu Dieppe, ond sy'n edrych yn anesmwyth iawn yn Asia. Roedd y strydoedd o'u cwmpas dan eu sang gyda cherddwyr, beicwyr a sgwtwyr. Roedd sgwters i'w gweld

ymhob man, a dim sôn am geir na lorïau, am fod popeth yn cael ei gario ar gerbydau bach. Boed sgwter neu feic, roedd llwythi'n cael eu cludo drwy'r torfeydd prysur, a hynny'n ddidrafferth, yn ôl y golwg.

Trawiadol iawn hefyd oedd y cyferbyniad rhwng prysurdeb masnachol Fietnam heddiw a'r Gomiwnyddiaeth Biwritanaidd ei naws a feddiannodd y wlad yn nyddiau Ho Chi Minh. "Cyfalafiaeth yw bywyd y bobl heddiw" meddai Anwen. Ond o'r dinasoedd prysur cafodd Ivan ac Anwen ddianc i harddwch a llonydd y wlad, oherwydd iddynt gymryd taith i Hoian, pentref ar lan y môr. Roedd marchnad nos yno, wedi ei goleuo gan lusernau papur yn arnofio ar y dŵr - darlun lliwgar a chofiadwy. Roedd stondinau yno yn gwerthu defnydd i wneud dillad, ac yn gwneud y dillad yn y fan a'r lle. A do, fe gawson ni weld lluniau lliwgar a chofiadwy o Anwen ac Ivan hefyd yn eu dillad newydd!



Swyddfa post yn Ho Chi Minh city

Ond er iddynt dreulio diwrnod hyfryd hefyd mewn cwch yn ymweld ag ynysoedd rhyfedd Bae Halon, sy'n codi fel pileri'n syth o'r môr, rhaid oedd i Anwen ac Ivan fynd i ddinas Ho Chi Minh a hedfan adre i Gymru fach, gyda'u dillad newydd – a llwyth o atgofion a lluniau i'w rhannu gyda ni, aelodau lwcus Merched y Wawr, a hynny ar adeg pan mae teithio wedi ei gyfyngu gymaint ers yr adeg hon ddwy flynedd yn ôl.

RHIW'R PERAI ar ZOOM

Bydd y drydedd gyfres o sgysiau ar Zoom yn dechrau ar y 3^{ydd} o Chwefror a phob yn ail ddydd lau tan Fawrth y 31^{ain}

1af Alex Wilson, Dydd Iau, Chwefror 3^{ydd} am 7:30 y.h.
Rhywogaethau dan Fygythiad yn Ardal Rhiw'r Perai

2ail Wayne Barnett, Dydd Iau, Chwefror 17^{eg} am 7:30 y.h.
Cof Arfbeisiau'r Teulu Morgan yn Eglwys Machen Isaf

Cynhelir y sgysiau yn Saesneg

Am fanylion pellach cysylltwch â : Patjonesjenkins@googlemail.com

Bwyta'n iach yn y gaeaf?

Atgof yw'r Nadolig erbyn hyn, ond mae ei ôl ar lawer ohonom o hyd – yn ddillad newydd, efallai, neu ryw anrheg hyfryd arall – ond i lawer ohonom, mae ôl y Nadolig i'w weld yn glir ar y dafol. Mae'r pwddin a'r siocled a'r wledd Nadolig ei hun gennym o hyd, yn y pwysau ychwanegol a enillon ni dros y Gwyliau.



Felly ... nid teisen sydd gen i ar eich cyfer y mis hwn, ond pryd bach ysgafn, iachus dros ben, a Chymreig yn ei hanfod. Ie, cawl cennin, ond nid y cawl cennin traddodiadol. Does dim cig na braster yn y fersiwn hwn – ac felly, er ei fod yn hawdd ei goginio ac yn flasus i'w fwyta, bach iawn o galoriau sydd ynddo, a nemor dim braster, wrth reswm.

Fe welwch y cynhwysion i gyd yn y llun: cennin, taten, tua pheint o stoc llysiau. Mae llawer o'r ryseitiau ar gyfer cawl o bob math yn pwysleisio'r angen i ffrio'r llysiau mewn menyn neu olew o ryw fath. Dwi ddim yn gweld bod angen gwneud hynny mewn gwirionedd - ac mae'n ychwanegu at y calorïau, wrth gwrs!

Felly rhowch y stoc yn y sosban, pilwch y llysiau, a'u torri'n weddol o fân. Rhowch wres dan y sosban, ychwanegwch y llysiau, a rhowch hanner awr iddyn nhw fudferwi gyda'i gilydd. Pryd welwch y darnau tatws yn dechrau toddi i'r cawl, tynnwch y sosban i ffwrdd o'r gwres.

Os ydych am ddefnyddio peiriant i droi'r darnau llysiau'n gawl hufennog, rhaid aros am ychydig nawr, er mwyn i'r cawl oeri rhywfaint. Ond os ydych am losgi rhai calorïau ychwanegol, defnyddiwch stwnsiwr hen ffasiwn a nerth braich i weddnewid y cymysgwch.

Fe welwch ffrwyth eich llafur yn y llun: rwy wedi malu ychydig o bersli a'i daenu ar wyneb y cawl, ond dim ond er mwyn ychwanegu at olwg y cawl. Ail-dwymwch y cyfan, a mwynhewch bryd rhinweddol o iachus!



Kerry Galey

Mae pawb yn croesawu'r eirlys wrth iddyn nhw ymddangos mor ddewr yn y gwanwyn cynnar, eu pennau yn codi'n calonnau. A beth am ein perthi'n edrych yn hardd yn gwisgo siôl ysgafn o ros yn y cae gyda'i arogl nefolaidd drwy nosweithiau'r haf.

Yn wir, ond pa blanhigyn sydd yn dal ein llygad cyn i ni ffarwelio â'r tymor arall o flodau prydferth? Dyma un sy'n taro'r marc: Cribau San Ffraid (Betony). Gellir dal ambell gipolwg dan hen wrychoedd, ar fin coedwig




hynafol neu mewn glaswellt ar hyd yr arfordir, er mai rhywbeth arbennig yw gweld llain fawr gyda'i gilydd. Pan ddaw'n yn niferus mae fel cusan o finlliw pinc ar wyneb y cae. Un lle sy'n syfrdanol yw dôl y goleudy a'r As Fach (Nash Point) sy'n troi'n binc o un pen i'r llall.

Hefyd, mae yna blanhigion sy'n mynychu ein cymoedd. Gallwch chi ddod o hyd i Gribau San Ffraid yn eu cynefin arbennig, sef glaswellt rhostir. Mae'r cymoedd glo'n cynnal tipyn sylweddol o laswellt rhostir; canlyniad yr holl law rydyn ni'n ei gael gyda gaeafau mwyn (Arfordir Môr Iwerydd Ewrop) ar y cyd gyda ffermio traddodiadol dros y canrifoedd.

Ym Mharc Cwm Darren mae enghraifft o hen dir fferm sy'n dal i fodoli - Dôl Cwmllywdrew, esiampl wych o rostir. Gwelir amrywiaeth o'r rhywogaethau 'ma: Tamaid y Cythraul (Devil's Bit Scabious), Ysgallen y Ddôl (Meadow Thistle), Ystrewlys (Sneezewort), Dant y Pysgodyn (Saw-wort) yn hwyr yn yr haf, ac yma ar ochrau'r cymoedd, gan osgoi'r lleoedd gwlypaf, dewch ar draws tair llain fawr o Gribau San Ffraid, sy'n werth eu gweld.

“Difyr, Digri, Gwych”

..... meddai Gillian Elisa ac roedd hi’n berffaith gywir. Y pecyn gorau, yn ddiau, yn sach Siôn Corn wrth iddo ddringo’n chwyslyd i lawr ein simnai Noswyl Nadolig oedd nofel ddiweddaraf Marlyn Samuel, ‘Pum Diwrnod a Phriodas’. Mae hon yn berl arall gan yr awdur o Ynys Môn sydd eisoes wedi’n difyrru â ‘Cicio’r Bwced’, ‘Milionêrs’, ‘Llwch yn yr Haul’, ‘Cwcu’ a sawl cyfrol ddifyr arall. Ac yn y nofel hon eto gallwn chwerthin a chrio bob yn ail - ond chwerthin yn bennaf.



Dilyn hynt priodas yn Sorento drwy lygaid Carys, mam y priodfab, a geir yn nofel ddiweddaraf Marlyn Samuel. Mae’n teithio yno gyda’i mab arall, Siôn, ei wraig Greta a’u croten fach, Sisial. Hefyd, Thelma, mam Carys, gyda’i sylwadau amhriodol di-flewyn ar dafod sydd yn achosi Carys i “gyfrif lan i ddeg” neu “i gnoi ei thafod” yn aml iawn.

Mae troeon annisgwyl y plot yn sicrhau fod y darlennydd yn glwm wrth y gyfrol tan dudalen 182, y dudalen olaf un. Plentyn siawns oedd Siôn, ei dad yn un a fu mewn *fling* gyda Carys ei fam ar wyliau flynyddoedd yn gynt. A pwy gyrhaeddodd y briodas, braidd yn annisgwyl, ond Gareth John, tad naturiol Rebeca'r briodferch a fe, fel y gwelwyd, oedd tad naturiol Siôn, brawd Gethin, hefyd. Gethin, wrth gwrs, oedd y priodfab a mab Carys, felly, yn priodi hanner chwaer ei frawd hŷn!!!! Y casgliad yn y nofel yw, “Teg dweud eu bod yn gegwrth pan glywsant fod Siôn nid yn unig yn hanner brawd i Gethin ond ei fod hefyd yn hanner brawd i Rebeca. “

Dysgwn mai drwy dro trwstan y collodd Carys gysylltiad â thad ei mab. Wedi iddo nodi rhif ffôn Carys ar ddarn o bapur a’i ddodi i gadw ym

mhoced ei jîns, fe olchodd ei fam y jîns heb wacáu’r pocedi! Yna, mae’r plot yn cymhlethu ymhellach cyn dod i ben llanw..... Wel, darllenwch y llyfr os am wybod y cyfan!

Mae naws, rhwyddineb a naturioldeb y dafodiaith yn llifo’n naturiol o dudalen i dudalen yng nghreadigaeth ddiweddaraf Marlyn Samuel: Roedd y Proseco gafodd gan Siôn “wedi llacio staes yr hen Thelma yn o arw.” “Roedd Thelma bron a thorri silff ei thîn i gael hwylio mewn *yacht* i Capri” “..a bod tawelwch a’i mam yn antithesis llwyr”.

Mae cymaint o’r cymariaethau mor drawiadol fel “pwtyn moel coesfyr” a “Hwylodd (Greta) drwy enedigaeth Sisial fel “rifysio car o’r garej”. Er bod cymariaethau eraill weithiau braidd yn amrwd: “(roedd y tawelwch cymaint) fel y gellid fod wedi clywed gwybedyn yn taro rhech; hefyd, “wedi meddwi’n gachu rwtsh... wedi cael llond craj”.

Roedd Cymreigeiddio geiriau Saesneg yn sicrhau fod yr iaith yn llithro’n ddiymdrech: “gormod o *feilej* ar y cloc”, *mydder of ddy breid*, *hablwsions*, *brenwef*, *ridyndant*. A cheir nifer o ddywediadau brodorol sy’n haeddu cael eu cadw ar gof: “ei grib wedi’i dorri a’i gynffon rhwng ei afl”, “Calla’ dawo”, “drybowdian”, “chwilio am fachiad”, gormod, a dweud y gwir i’w rhestri.

Rhaid cytuno â Gillian Elisa wrth iddi ddatgan bod y nofel yn “Llawn hiwmor, llon a lleddf. Byddai’n gwneud ffilm arbennig o dda.” A dylai hi wybod; mae’n gwybod peth neu ddau am hiwmor - a ffilm.



Mae Marlyn Samuel yn byw ym Mhentre Berw ar Ynys Môn ac yn gweithio fel ymchwilydd i BBC Radio Cymru. Mae wedi gwneud enw iddi ei hun fel brenhines nofelau llawn hiwmor.

Colofn Dafydd Islwyn

Darllenais yn 'Diferion Dyfri' i'r Parchedig J. Myddfai Jones (1870-1954), brodor o Fyddfai, Llanymddyfri, fod yn weinidog gyda'r Hen Gorff yn Abertyleri, ei ofalaeth gyntaf, ar ddechrau'r hen ganrif. Yn y gyfrol ceir detholiad o'r gerdd 'Cwyn Coll', er cof am filwr a gollodd ei fywyd yn Ffrainc yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf a'i englyn 'Hiraeth',

Llais celi yn llys calon – greddf enaid
Mewn griddfannau cyson
Dafnau o glwyfau dyfnion
Enaid briw, erfyniad bron.

Mynegi ei brofiad a wnaeth Myddfai yn ei englyn gafaelgar gan i'w ddyweddi farw yn 1900 pan oedd yn dechrau ar ei weinidogaeth yn Abertyleri.

Dau englynwr cydnabyddedig a fu'n byw yn Abertyleri yn ystod chwarter cyntaf yr hen ganrif oedd George Rees (1873-1950) a Thomas James Thomas, y bardd Sarnicol (1872-1945).

Brodor o Gwm Rhondda oedd George Rees. Agorodd siop ar ddechrau'r ugeinfed ganrif ym Mhont Rhondda. Tua diwedd 1908 cadwai fusnes gwerthu llaeth yn Llundain. Dychwelodd i Gymru i gadw siop yn Abertyleri. Ymhen amser dychwelodd i Lundain.

Ar ôl graddio yng Ngholeg y Brifysgol Aberystwyth bu Sarnicol yn athro ysgol yn Southampton, Abergele, Abertyleri a Merthyr. Yn 1922 penodwyd ef yn brifathro Ysgol Uwchradd Mynwent y Crynwyr. Ymddeolodd yn 1931.

Nos Sul y Pasg 1925 ysbrydolwyd George Rees gan bregeth yng nghapel Willesden Green, Llundain, i gyfansoddi'r emyn "O Fab y Dyn Eneiniog Duw, Fy Mrawd a'm Ceidwad Cry". Bellach, meddai'r diweddar Barchedig Gomer M. Roberts, y mae'r emyn 'O Fab y Dyn' yn glasur. Ni ddyfynnir odid un emyn yn amlach yn y pulpud na hwn. 'Ni ddiffydd mo'r fflam'.

Enillodd George Rees gystadleuaeth yr englyn yn y Genedlaethol. Enillodd ym Mhwllheli 1925; Treorci 1928; ac Aberafan 1932. Daeth yn gydradd gyntaf ag Eifion Wyn yn Abertawe 1926. Yn ôl ei arfer nid oedd yr englynwr piwis yn hapus iawn â'r canlyniad. Y ddau feirniad oedd J. T. Job a R. Williams Parry. Yn ôl pob sôn roedd George Rees wedi cystadlu yn yr englyn yn y Genedlaethol yng Nghaerffili 1950. 'Cyfaill' oedd testun yr englyn Aberafan 1932.

Rhed ei gariad i'w gerydd – ni'm gwrthyd
Ni'm gwerth yn dragywydd:
Fy llyw da trwy f'holl dywydd
Lloer fy nos lleufer fy nydd.

Testun yr englyn yn y Genedlaethol ym Mangor yn 1931 oedd 'Y Bompren' a'r enillydd oedd y Prifardd Sarnicol.

Trwm drawst er tramwy drosto
– a chanllaw
Arw ei chynllun wrtho;
Lle'r oed hwyr, lle hir dario
A dolen braff dwylan bro.

Ei ffugenw oedd Sigma, enw a ddefnyddiai ef yn aml wrth gystadlu yn y Genedlaethol. 'Alltud' oedd ei ffugenw pan enillodd y Gadair yn y Genedlaethol yn y Fenni 1913. Testun yr awdl oedd 'Aelwyd y Cymro'. Yn ôl Dyfed, un o'r tri beirniad awdl, 'awdl dyner felys ac o naws delynegol' oedd yr awdl fuddugol.

Awdl yn mynegi mor naturiol ac mor gyson profiad llawer un wrth edrych yn ôl. Mor wir yr englyn hwn am iaith ein cartrefi:

Diddan iaith aelwyd ddi-nod – iaith ryfedd
Athrofa plentyndod;
Dynera iaith dan y rhod
Iaith annwyl hen fythynod.

Y tri beirniad yn Y Fenni oedd Dyfed, J. J. Williams a T. Gwyn Jones, ac roedd y tri yn beirniadu ym Mhenbedw ymhen pedair blynedd. Awdl Sarnicol i'r 'Arwr' osodwyd yn ail i un Hedd Wyn yn y Genedlaethol yn 1917. Mae'n rhaid bod Y Parchedig J. J. Williams yn hoffi gwaith Sarnicol oherwydd ef oedd yn beirniadu yr englyn ym Mangor yn 1931!

Heddiw cofir Sarnicol a anwyd yng Nghapel Cynon ar gyffiniau Banc Siôn Cwilt, Ceredigion, am ei delyneg adnabyddus 'Ar Ben y Lôn'. Telyneg deg pennill, pedair llinell ydy hi.
A dyma'r pennill agoriadol:

Ar ben y lôn mae'r Garreg Wen
Yr un mor wen o hyd
A phedair ffordd i fynd o'r fan
I bedwar ban y byd.

A'r pennill clo:

Ar ben y lôn mae'r Garreg Wen
Yr un mor wen o hyd
A dof yn ôl i'r dawel fan
O bedwar ban y byd.

Darllenais i hi gynta' yn 'Y Flodeugerdd Gymraeg', Golygydd W.J. Gruffydd.



Newyddion Pwysig IAWN

Mae pwyllgor y papur bro wedi penderfynu y byddwn yn ail gychwyn argraffu'r papur bob mis o'r cyntaf o fis Ebrill ymlaen.

Mae nifer ohonoch wedi cyfarwyddo â derbyn y papur ar-lein ac eraill yn dweud ei bod yn well ganddyn nhw'r papur fel hyn.

Os ydych am dderbyn copi wedi'i argraffu o'r papur ym mis Ebrill, cysylltwch â'r Golygydd ar benamarycwmni@yahoo.com

Rhiw'r Perai ar Dân

Cyflwyniad gan
Cwmni Cwm Ni
(yn Saesneg)

*Y tân mawr ddifethodd y castell
80 mlynedd yn ôl*

Nos Iau, Mawrth 3^{ydd}

7:30 ar gyfer 8:00 o'r gloch
British Legion Club, Machen

Mynediad £5 - £6



PWYLLGOR a SWYDDOGION

Cadeirydd: Robert Dutt

Ysgrifennydd Cofnodion: Ann Lewis

Trysorydd: Eyron Thomas e.thomas119@btinternet.com



*Ariennir yn
rhannol gan
Lywodraeth
Cymru*

Golygydd: Ben Jones benamarycwmni@yahoo.com 02920 862428 07891916046

Ysgrifennydd: Marian Fairclough faircloughmarian@gmail.com 02920885151

Dosbarthu a Golygydd Llundain: Mary Jones

Cynorthwy-ydd: Jan Penney

Gweplyfr/ Face book:  Papur Bro Cwmni Y Pwyllgor: Eirlys Thomas, Dilys Williams

Hysbysebu: Bethan Ollerton Jones, Menter Iaith

Gwefan: Menter IaithSir Caerffili.cymru/ **Cwmni** 

e-bost: Golygydd@papurecwmni.cymru benamarycwmni@yahoo.com

Cedwir yr hawl i gwtogi neu newid erthyglau neu luniau yn ôl gofynion golygyddol.